Atodiad A

Anthony Barrett
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Eich Cyf/Your Ref: | |
| Ein Cyf/Our Ref: | SF/M27 |
| Dyddiad/Date: | 26 Medi 2011 |
| Gofynner am/Ask for: | S Forrest |
| Rhif Union/Direct Dial: | 01492 576179 |

Annwyl Syr

## Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru 2010/2011

Darperir y llythyr sylwadau hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011.

Rydym yn cadarnhau y gallwn, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ac wedi gwneud ymholiadau yr ystyriwn yn ddigonol, wneud y sylwadau hyn i chi.

**Sylwadau'r Rheolwyr**

**Cyfrifoldebau:**

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau wrth lunio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a Chod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (Safonau IFRS); yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg yn unol â hwy.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am lunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a chamgymeriad.

**Yr Wybodaeth a Ddarperir:**

Ar eich cyfer, rydym wedi darparu:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ei bod yn berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a'r ddogfennau i'w cefnogi, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gennych i ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad dirwystr at staff yr oeddech yn tybio ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll;

- ein gwybodaeth am dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohonynt ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân Gogledd Cymru, ac sy'n ymwneud â:
    - rheolwyr;
    - gweithwyr sydd â rolau pwysig mewn rheolaeth fewnol; neu
    - eraill lle gallai'r twyll gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a fynegir gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos o anghydffurfiaeth â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- enw pob parti cysylltiedig a pherthynas pob parti cysylltiedig, ynghyd â'r trafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

**Sylwadau ar y Datganiad Ariannol:**

Cofnodwyd yr holl drafodion, asedau ac ymrwymiadau yn y cofnodion cyfrifyddu, ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am y perthnasoedd â phartïon cysylltiedig, ynghyd â'r trafodion, a datgelwyd hwy.

Mae pob digwyddiad a fu wedi'r dyddiad adrodd, ac sy'n gofyn am addasu neu ddatgelu, wedi cael ei addasu neu ei ddatgelu.

Mae pob ymgyfreithiad hysbys gwirioneddol neu bosib, ac y dylid ystyried ei effeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol, wedi cael ei ddatgelu i'r archwilydd, a rhoddwyd cyfrif amdano a'i ddatgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid yw effeithiau'r camddatganiadau oedd heb eu cywiro, ac a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad, yn bwysig, boed yn unigol neu wedi eu cronni, i'r datganiadau ariannol o'u hystyried o'u cwr.

**Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu**

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan yr rheolwyr uchod wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 26 Medi 2011.

Arwyddwyd gan

**Prif Swyddog Tân**
**Dyddiad** 26 Medi 2011

**Clerc i'r Awdurdod**
**Dyddiad** 26 Medi 2011